


**CBAC TGAU
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**



**Ffynonellau Doethineb ac Awdurdod
Uned 2 a 3 Iddewiaeth**

Rhan A

Iddewiaeth - Credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

Credoau

Y Cyfamod

Cyfamod Abraham

Genesis 12:1-3

Galwad Abraham

¹² Dywedodd yr Arglwydd wrth Abram, 'Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti.

² Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di; mawrygaf dy enw a byddi'n fendith.

³ Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio, a melltithiaf y rhain sy'n dy felltithio; ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear.

Genesis 17:6-8

⁶ Gwnaf di'n ffrwythlon iawn; a gwnaf genhedloedd ohonot, a daw brenhinoedd allan ohonot. ⁷ Sefydla fy nghyfamod yn gyfamod tragwyddol â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau, i fod yn Dduw i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl. ⁸ A rhoddaf y wlad yr wyt yn crwydro ynddi, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl, a byddaf yn Dduw iddynt."

Genesis 17:11-14

¹¹ Enwaedir chwi yng nghnawd eich blaengrwyn, a bydd yn arwydd cyfamod rhyngom. ¹² Dros eich cenedlaethau, fe enwaedir pob gwryw ohonoch sydd yn wyth diwrnod oed, boed wedi ei eni i'r teulu, neu'n ddieithryn heb fod yn un o'th ddisgynyddion, ond a brynwyd ag arian. ¹³ Rhaid enwaedu'r sawl a enir i'r teulu, a'r sawl a brynir â'th arian; a bydd fy nghyfamod yn eich cnawd yn gyfamod tragwyddol. ¹⁴ Y mae unrhyw wryw dienwaededig nad enwaedwyd cnawd ei flaengroen, i'w dorri ymaith o blith ei bobl; y mae wedi torri fy nghyfamod."

Cyfamod Moses

Exodus 3:11-15

¹¹ Ond gofynnodd Moses i Dduw, 'Pwy wyf fi i fynd at Pharo ac arwain pobl Israel allan o'r Aifft?'

¹² Dywedodd yntau, "Byddaf fi gyda thi; a dyma fydd yr arwydd mai myfi sydd wedi dy anfon: wedi iti arwain y bobl allan o'r Aifft, byddwch yn addoli Duw ar y mynydd hwn."

¹³ Yna dywedodd Moses wrth Dduw, 'Os af at bobl Israel a dweud wrthynt, "Y mae Duw eich hynafiaid wedi fy anfon atoch", beth a ddywedaf wrthynt os gofynnant am ei enw?'

¹⁴ Dywedodd Duw wrth Moses, "Ydwyf yr hyn ydwyf. Dywed hyn wrth bobl Israel, "Ydwyf sydd wedi fy anfon atoch."

¹⁵ Dywedodd Duw eto wrth Moses, 'Dywed hyn wrth bobl Israel, "Yr Arglwydd, Duw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob sydd wedi fy anfon atoch."

Arferion

Hunaniaeth Iddewig

Exodus 12:14

¹⁴ "Bydd y dydd hwn yn ddydd i'w gofio i chwi, ac yr ydych i'w gadw yn ŵyl i'r Arglwydd; cadwch yr ŵyl yn ddeddf am byth dros y cenedlaethau.

Rhan B

Thema 1: Materion Perthnasoedd: Cynnwys o Safbwynt Iddewig.

Perthnasoedd

Deuteronomium 24:1-4

24 Os bydd dyn wedi cymryd gwraig a'i phriodi, a hithau wedi heb fod yn ei fodloni am iddo gael rhywbeth anweddus ynddi, yna y mae i ysgrifennu llythyr ysgar iddi, a'i roi yn ei llaw 'i hanfon o'i dŷ. ² Wedi iddi adael ei dŷ, os daw yn wraig i rywun arall, ³ a hwnnw wedyn yn ei chasáu ac yn ysgrifennu llythyr ysgar iddi, a'i roi yn ei llaw a'i hanfon o'i dŷ, neu os bydd yr ail ŵr yn marw, ⁴ yna ni all ei phriod cyntaf, a oedd wedi ei hysgaru, ei hailbriodi wedi iddi gael ei halogi. Byddai hynny'n beth ffiaidd gerbron yr Arglwydd, ac nid ydych i ddwyn pechod ar y wlad y mae'r Arglwydd eich Duw yn ei rhoi'n feddiant ichwi.

Exodus 20:14

¹⁴ Na odineba.

Perthnasoedd rhywiol

Lefiticus 18:22

²² Nid wyt i orwedd gyda dyn fel gyda gwraig; y mae hynny'n ffieidd-dra.

Lefiticus 20:13

¹³ Os bydd dyn yn gorwedd gyda dyn fel gyda gwraig, y mae'r ddau wedi gwneud ffieidd-dra. Y maent i'w rhoi i farwolaeth, ac y maent yn gyfrifol am eu gwaed eu hunain.

Materion cydraddoldeb: rhagfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw

Rhan B

Thema 2: Materion Hawliau Dynol: Cynnwys o Safbwynt Iddewig.

Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Genesis 1:26-27

²⁶ Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear."

²⁷ Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy.

Rhagfarn a gwahaniaethu

Mishnah Sanhedrin 4.5

https://www.sefaria.org/Mishnah_Sanhedrin.4.5?lang=bi&with=all&lang2=en

Felly, cafodd bodau dynol eu creu'n unigol, i'ch dysgu bod pwy bynnag sy'n dinistrio un enaid [o Israel], fod yr Ysgrythur yn cofnodi hyn fel petai wedi dinistrio byd cyfan; a phwy bynnag sy'n achub un enaid o Israel, fod yr Ysgrythur yn cofnodi hyn fel petai wedi achub byd cyfan. Ac er mwyn heddwch ymhlith pobl, ni ddylai rhywun ddweud wrth ei gydymaith, "Mae fy rhiant i yn well na dy un di;" ac ni ddylai hereticiaid ddweud, "Mae llawer o rymoedd yn y Nefoedd." Eto, i ddatgan mawredd yr Un Sanctaidd, bendigedig fo Duw, oherwydd mae rhywun yn stampio llawer o ddarnau arian o'r un dei, ac maent i gyd yr un peth, ond bu i'r Brenin, Brenin y brenhinoedd, yr Un Sanctaidd, bendigedig fo Duw, stampio pob unigolyn gyda sêl Adda, ac nid oes yr un ohonynt yr un peth â'i gydymaith ef neu hi. Felly mae'n rhaid i bob un ddweud, "Er fy mwyn i y crëwyd y byd." A rhag ofn eich bod yn dweud, "Beth ydym yn trafferthu gyda hyn?" Oni ddywedwyd yn barod, os bydd unrhyw un...beidio â dweud dim, er ei fod yn dyst a'i fod wedi gweld, neu'n gwybod..." (Lefiticus 5:1). Ac os ydych yn dweud, "Pam fod angen i ni fod yn gyfrifol am waed hwn?" Oni ddywedir, "a cheir gorfoledd pan ddinistrir y drygionus" (Diarhebion 11:10).

G. Craidd

<https://www.jcore.org.uk/>

Materion cyfoeth a thlodi

Wyth Lefel Elusen Maimonides

http://www.chabad.org/library/article_cdo/aid/45907/jewish/Eight-Levels-of-Faith.htm

Tzedek

<http://tzedek.org.uk/>